**LC338**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 11) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r gorchymyn hwn yn diwygio ymhellach Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983 i'w gwneud yn ofynnol i arolygwyr sy'n rhoi trwyddedau ar gyfer symud anifeiliaid mewn ardaloedd heintiedig, ardaloedd heintiedig cyfyngedig ac ardaloedd a reolir gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a all fod wedi'u rhoi gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

O dan y weithdrefn weithredol y mae'r gorchymyn hwn wedi'i wneud.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ar y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, 15 Medi 2001 yw'r dyddiad dod i rym a bennir ar frig y gorchymyn, ond 16 Medi yw'r dyddiad a bennir yn erthygl 1.

Er hynny, nodir bod y gwall wedi'i gywiro yn y fersiwn a gyhoeddwyd, sy'n rhoi 16 Medi yn ddyddiad dod i rym yn y pennawd ac yn erthygl 1.

Gan fod hyn wedi'i ddatrys yn foddhaol erbyn hyn, o safbwynt ymarferol, nid yw'n fater y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw iddo o dan Reol Sefydlog 11.5. Er hynny, nodir y dylai gweithdrefnau gwirio trwyadl gael eu dilyn bob amser er mwyn osgoi'r angen i gywiro gwallau o'r fath adeg cyhoeddi.

**Sylwadau Cyffredinol**

Dylai’r rhaglith, fel yng Ngorchymyn Rhif 10, fod wedi croniclo bod y Cynulliad a’r Gweinidog yn gweithredu ar y cyd.

Nodir bod y gwall lle cafodd 2001 ei ailadrodd ar gam yn y pennawd wedi’i gywiro yn y fersiwn a gyhoeddwyd.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Hydref 2001